**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

26 Mawrth 2019

Annwyl Jeremy

**Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

Yn ei lythyr i ni ar 11 Mawrth 2019, cyfeiriodd y Prif Weinidog fod Gorchymyn adran 109 posibl ar ei ffordd. Dywedodd y Prif Weinidog:

> Fel y gwyddoch, bu gohebiaeth Gweinidogol â Swyddfa Cymru ynghylch Gorchymyn a109 i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau anfwriadol ar gymhwysedd y Cynulliad sydd wedi'u creu gan bwerau a roddir mewn OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn darparu rhagor o wybodaeth am yr ohebiaeth Weinidogol y cyfeiriwyd ati gan y Prif Weinidog a'r trafodaethau cyfredol ynghylch defnyddio Gorchymyn adran 109 i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol a grëwyd gan offerynnau statudol ynghylch ymadael â'r UE.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565